

# CYFNEWIDFA TEGANAU A DILLAD PLANT

Cyfle i glirio'r teganau sydd ddim yn cael eu defnyddio bellach a'r dillad sydd ddim yn cael eu gwisgo. Dewch â nhw i'n Cyfnewidfa a'u cyfnewid am eitemau ail law eraill gan arbed arian, lleihau gwastraff, a chefnogi economi gylchol!

**AIL LAW • AILDDEFNYDDIO • ARBED**
**CYMUNED • AMGYLCHEDD**
**CLIRIO • PLANT • TEGANAU**

**Cysylltwch: Emily ar 07398740599 neu e-bostiwch emily@footholdcymru.org.uk**

Dydd Iau 7fed Tachwedd

9.30 am - 11 am

Canolfan yr Arglwydd Rank, Heol Trostre, Llanelli, SA14 9RA

Dewch â'r teganau a dillad ail law Dydd Llun 4ydd Tachwedd


Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr yw Foothold Cymru Rhif: 1188969

FOOTHOLD CYMRU
NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP
www.footholdcymru.org.uk

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU

# CWESTIYNAU AM Y GYFNEWIDFA TEGANAU A DILLAD PLANT

**C. Beth yw Cyfnewidfa Teganau a Dillad Plant?**
A. Digwyddiad lle gall rhieni a gofalwyr ddod â theganau a dillad (mewn cyflwr da) na sydd bellach mo'u hangen ar eu plant a'u cyfnewid nhw am eitemau ail law eraill. Mae'n ffordd wych o adfywio wordrob a chasgliad teganau eich plentyn heb wario arian.

**C. Pryd alla i ddod ag eitemau i'w cyfnewid?**
A. Dewch â hyd at 10 eitem rhwng 9.30am a 3pm Dydd Llun 4ydd Tachwedd.

**C. Pa fath o eitemau alla i ddod â nhw?**
A. Gallwch ddod â theganau a dillad (mewn cyflwr da) sy'n addas i blant hyd at 10 oed. Gwnewch yn siwr bod eitemau yn lân, yn gweithio ac heb eu difrodi. Nid ydym ni'n derbyn eitemau sydd wedi torri, wedi'u staenio, nac wedi treulio'n ormodol.

**C. Alla i ddod ag eitemau baban?**
A. Gallwch - mae croeso i eitemau baban megis dillad, teganau ac offer bychan (e.e. cludwyr baban, bagiau cewynnau), ar yr amod eu bod yn cwrdd â safonau diogelwch a'u bod nhw mewn cyflwr da.

**C. Faint o eitemau alla i fynd adref â nhw?**
A. Mae nifer yr eitemau y cewch chi fynd adref â nhw yn dibynnu ar nifer y tocynnau neu gredydau ydych chi'n eu derbyn wrth ddod â'ch eitemau. Er enghraifft, os ydych chi wedi rhoi 5 eitem i'w cyfnewid, byddwch chi'n derbyn 5 tocyn i 'dalu' am 5 eitem.

**C. Beth sy'n digwydd i eitemau sydd dros ben?**
A. Bydd unrhyw eitemau sydd dros ben ar ddiwedd y gyfnewidfa'n cael eu rhoi i'n cyfnewidfa ddillad barhaol er mwyn cefnogi teuluoedd lleol neu'n cael eu rhoi i fudiad lleol addas. Mae hyn yn sicrhau nad oes unrhyw beth yn cael ei wastraffu ac yn helpu'r gymuned.

**C. Oes cost i gymryd rhan?**
A. Nag oes, dim ond i chi ddod â hyd at 10 eitem yr hoffech chi eu cyfrannu.

**C. Pam ddyliwn i gymryd rhan mewn Cyfnewidfa Teganau a Dillad Plant?**
A. Mae cymryd rhan yn ffordd wych o arbed arian, lleihau gwastraff, a hyrwyddo economi gylchol. Mae'n eich galluogi i glirio eich cartref, rhoi eitemau i'ch plant sy'n newydd iddyn nhw, a chysylltu â theuluoedd eraill yn eich cymuned.

**Dod â'r teganau a dillad: Dydd Llun 4ydd Tachwedd, 9.30am - 3pm**
**Diwrnod y gyfnewidfa: Dydd Iau 7fed Tachwedd, 9.30 am - 11am**
**Ble?: Canolfan yr Arglwydd Arthur Rank, Heol Trostre, Llanelli, SA14 9RA**

**Elusen gofrestredig yng Nghymru a Lloegr yw Foothold Cymru Rhif: 1188969**

FOOTHOLD CYMRU
NEWID BYWYDAU CAM WRTH GAM
CHANGING LIVES STEP BY STEP
www.footholdcymru.org.uk

Cefnogwyd gan
Supported by
Cyngor Sir Gâr
Carmarthenshire County Council

Funded by UK Government
Wedi ei ariannu gan Llywodraeth y DU